PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, POBL IFANC A'R GYMRAEG

DYDD GWENER 17EG MAI 2024

YN BRESENNOL: Cynghorydd A.C. Jones (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

S.M. Allen	L. Davies	P. Hughes-Griffiths	H. Jones
M.J.A. Lewis	E. Skinner		

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

K.V. Broom	J.M. Charles (Dirprwy)	B.W. Jones	D. Jones
S.L. Rees	J. Williams		

Aelodau Cyfetholedig (Yn y Siambr):
A. Enoch, Rhiant-lywodraethwr
M. Hughes, Cynrychiolydd o'r Eglwys yng Nghymru
V. Kenny, Cynrychiolydd o'r Eglwys Gatholig

Roedd yr Aelod Cabinet canlynol yn bresennol (Yn y Siambr):
G. Davies

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
A. Rees, Pennaeth Strategaeth a Chymorth i Ddysgwyr
A Thomas, Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant
E. Forsyth, Arweinydd Strategol ar gyfer Effeithiolrwydd Ysgolion
G. Adams, Prif Rheolwr Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid
I. Mainwaring, Swyddog Cyfranogiad a Hawliau Plant
D. Hall-Jones, Swyddog Cefnogi Aelodau
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):
C. Pugh, Uwch-Reolwr Arlwyo
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd

Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ac o bell - 10.00 - 11.20 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd L. Bowen. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor y byddai'r Cynghorydd M. Charles a'r Cynghorydd B.W. Jones yn gadael y cyfarfod cyn iddo ddod i ben.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch buddiannau personol na chwip waharddedig.

3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

4. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM WAITH CYNGOR IEUENCTID SIR GAERFYRDDIN

Yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Atodiad B), roedd gan yr Awdurdod ddyletswydd i gefnogi Cyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin fel corff sy'n cynrychioli pobl ifanc i weithredu fel sianel ar gyfer eu barn ar draws y sir a chynrychioli'r safbwyntiau hynny i gyrff gwneud penderfyniadau lleol a chenedlaethol.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am waith Cyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin yn unol â'r pedwar maes cynrychiolaeth mewn perthynas ag Addysg, Cyffredinol, Diddordeb Arbennig a Senedd Ieuenctid Cymru.

Anerchodd cynrychiolwyr o Gyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin y Pwyllgor i roi crynodeb o'r amrywiaeth o gyfleoedd a gynigir gan Gyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin, a oedd yn cynnwys trafodaethau polisi, prosiectau cymunedol ac ymgyrchoedd a arweinir gan bobl ifanc; gyda'r nod o greu newid cadarnhaol ac adeiladu cymdeithas fwy cynhwysol a bywiog.

Amlygodd yr adroddiad rai llwyddiannau nodedig, ymgysylltiadau, nodweddion ac ymgyrchoedd Cyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin a oedd yn dangos effaith a phwysigrwydd cyfranogiad pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau ac mewn prosesau gwneud penderfyniadau yn lleol, yn genedlaethol ac ymhellach i ffwrdd. Cyfeiriwyd hefyd at ddylanwad cadarnhaol Cyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin ar ei aelodau; roedd y rhain yn cynnwys sgiliau gwerthfawr fel meithrin hyder, ysgrifennu areithiau, siarad yn gyhoeddus, datrys problemau a gwaith tîm.

Rhoddwyd sylw i'r materion/sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor, fel a ganlyn:-

Canmolodd y Pwyllgor y Cyngor Ieuenctid ar yr amrywiaeth o waith prosiect a wnaed i hyrwyddo materion pwysig fel bwlio, hawliau plant, iechyd meddwl, Urddas yn ystod Mislif a Thrais Domestig. Roedd yr Aelodau hefyd yn falch iawn o nodi bod ymroddiad Cyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin, fel sefydliad a chan aelodau unigol, wedi cael ei gydnabod yn ffurfiol dros y blynyddoedd gyda nifer o wobrau lleol a chenedlaethol mawreddog a oedd yn cynnwys sefydliad y flwyddyn CAVS a'r Uchel-siryf ac anrhydedd 'Plentyn Dewr' Gwobr Arwr Cymunedol.

Mewn ymateb i ymholiad, rhoddwyd trosolwg i'r Pwyllgor o strwythur a phroses ddethol y Cyngor Ieuenctid lle gwahoddodd y Cyngor enwebiadau o'i bedwar maes cynrychiolaeth i gynrychioli barn holl bobl ifanc y sir.

Mewn ymateb i gwestiwn, mynegodd cynrychiolwyr y Cyngor Ieuenctid fod ei aelodau wedi derbyn cefnogaeth ac anogaeth gadarn gan Swyddogion a roddodd gyfle iddynt gael gwrando ar eu lleisiau; roedd effaith hyn yn glir yn ansawdd y gwaith a gynhyrchwyd gan Gyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin.

O ran rhannu arfer gorau ymysg Cynghorau Ieuenctid, cyfeiriwyd at gyfleoedd i ymgysylltu â Chynghorau Ieuenctid eraill ar lefel genedlaethol fel rhan o'i gyfranogiad yn Senedd Ieuenctid Cymru a'r DU, ond cydnabuwyd y gallai ymgysylltu ar lefel leol fod yn achlysurol oherwydd bod rhai Cynghorau Ieuenctid eraill yn profi anawsterau recriwtio.

Cyfeiriwyd at yr ymarfer ymgynghori "Ein Llais, Ein Pleidlais, Ein Dyfodol" a lansiwyd ym mis Hydref 2023 i gael barn ysgolion uwchradd ar y pynciau/cynigion a oedd bwysicaf iddynt a'r ysgol ehangach. Daeth yr ymgynghoriad i ben gyda chyfanswm o 5,221 o ymatebwyr, a oedd, ar y cyfan, i'w briodoli i'r ymdrechion a wnaed gan aelodau Cyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin a'r gefnogaeth gadarn a roddwyd gan Swyddogion. Nododd y canlyniadau fod y pynciau pwysicaf i bobl ifanc yn canolbwyntio ar yr angen i gael gwersi bywyd go iawn, fel cyllidebu, cymorth cyntaf a choginio ac ati. Rhoddodd y Pennaeth Strategaeth a Chymorth Dysgwyr sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu trafod ymhellach gyda'r cyngor Ieuenctid gyda'r nod o integreiddio rhai agweddau, lle bo'n briodol, yn y cwricwlwm

Pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd cydnabod a chodi ymwybyddiaeth o'r gwaith rhagorol a wneir gan y Cyngor Ieuenctid.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

5. PRYDAU YSGOL AM DDIM I HOLL BLANT YSGOLION CYNRADD (UPFSM) - DIWEDDARIAD CYNNYDD

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn manylu ar y cynnydd sydd wedi'i wneud wrth gyflwyno Prydau Ysgol Am Ddim i Bob Disgybl Ysgol Gynradd (UPFSM) ar draws Sir Gaerfyrddin. Roedd yr adroddiad yn nodi perfformiad yr Awdurdod o ran graddfa'r broses gyflwyno yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru, trefniadau ariannu, gofynion dietegol, goblygiadau staffio a materion capasiti.

Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod cynnig UPFSM wedi'i weithredu ar draws 97 lleoliad addysgol y sir yn unol â dyddiadau targed Llywodraeth Cymru a chanmolodd ymdrechion swyddogion yn hyn o beth.

Roedd cyllid gwerth £3.8m wedi'i ddyrannu i hwyluso'r broses o gyflwyno'r cynllun ac roedd llawer iawn o waith wedi'i wneud i gynyddu capasiti a gwella seilwaith ceginau ysgolion er mwyn galluogi'r Awdurdod i ddarparu ar gyfer cynnydd o 100% o UPFSM ar draws pob grŵp oedran. Ar ben hynny, roedd y

ceginau canolog wedi'u huwchraddio, ac roedd cyfleuster cegin newydd hefyd wedi'i adeiladu ar hen safle ysgol Ysgol Gors-las i ddiogelu'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol a galluogi adolygiad strategol o adnoddau.

Rhoddwyd sylw i'r materion/sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor, fel a ganlyn:

Eglurodd yr Uwch-reolwr Arlwyo wrth y Pwyllgor, er bod yr arian grant yn galluogi cydymffurfio o ran materion seilwaith a chapasiti, y byddai angen cyllid pellach o tua £300k i dalu'r holl gostau. O ran y dyraniad cost fesul pryd gan Lywodraeth Cymru, cadarnhaodd yr Uwch-reolwr Arlwyo fod y dyraniad cyllid yn cael ei adolygu a byddai costau'r Awdurdod yn hyn o beth yn cael eu dosbarthu i'r Pwyllgor maes o law.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd mewn perthynas â chynnwys siwgr prydau ysgol, rhoddwyd sicrwydd bod yr Awdurdod yn cydymffurfio'n llawn â chanllawiau 'Bwyta'n Iach mewn Ysgolion Llywodraeth Cymru' ac y byddai data maeth prydau ysgol yn cael ei ddosbarthu i'r Pwyllgor maes o law.

I gydnabod bod y Grant Datblygu Disgyblion yn fesur pwysig i bob ysgol ledled Cymru gefnogi plant agored i niwed, mynegwyd pryderon y byddai cyflwyno UPFSM yn cael effaith andwyol ar lefel y cyllid Grant Datblygu Disgyblion sydd ar gael i ysgolion gan nad oedd yn ofynnol i rieni/gwarcheidwaid wneud cais am brydau ysgol am ddim mwyach. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant fod Llywodraeth Cymru wrthi'n ymchwilio i'w mecanwaith ariannu grant ar gyfer ysgolion a bod ymarfer ymgynghori ar y gweill ar hyn o bryd gyda'r bwriad o sicrhau bod y ffigurau amddifadedd a ddelir gan Lywodraeth Cymru yn adlewyrchu'r heriau sy'n wynebu ysgolion. Nododd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor yn ystyried derbyn adroddiad diweddaru maes o law ar ffrydiau cyllido Llywodraeth Cymru. Yn ystod y cyfnod dros dro, anogwyd yr holl rieni/gwarcheidwaid perthnasol i ddatgan eu bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim er mwyn galluogi ysgolion i gael mynediad at y lefel briodol o gyllid Grant Datblygu Disgyblion.

Adolygodd y Pwyllgor y pwysau staffio parhaus o fewn y gwasanaeth a waethygwyd ymhellach gan gyflwyno UPFSM. Cydnabu'r Aelodau mai ddemograffig a sgiliau'r gweithlu presennol oedd y risg barhaus fwyaf i'r gwasanaeth ac roeddent yn falch o nodi bod y sefyllfa'n cael ei monitro'n agos, a bod trefniadau wrth gefn ar waith i sicrhau y gellid paratoi a dosbarthu prydau ysgol poeth i ysgolion yn barod ar gyfer amser cinio.

Croesawodd y Pwyllgor gyflwyniad System Recriwtio 'Oleeo' newydd yr Awdurdod Lleol a oedd wedi gwella cyflymder a thryloywder recriwtio'n sylweddol. Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod mentrau wedi'u rhoi ar waith i hwyluso cadw staff a oedd yn cynnwys cyfleoedd datblygu a mewnbwn i ddatblygu bwydlenni lle bo hynny'n bosibl.

Cafwyd trafodaeth ar bwysigrwydd defnyddio cynnyrch lleol ar gyfer prydau ysgol ac roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn nodi bod prosiect peilot ar y gweill lle byddai fferm leol yn cael ei defnyddio i gyflenwi cynnyrch i ddwy ysgol gynradd ac ysgol uwchradd. Roedd mentrau hefyd ar y gweill i gefnogi cynnyrch lleol fel

rhan o Bythefnos Bwyd Prydain ac roedd y cynllun 'Coginio 24' wedi'i gyflwyno ar draws ysgolion i ddatblygu arweinwyr bwyd a chynyddu'r defnydd o gynhyrchu bwyd lleol. At hynny, cyfeiriwyd at y rhandiroedd ar y safle yn ysgol Llandeilo lle gallai plant helpu i dyfu a chynaeafu llysiau i'w defnyddio mewn gwersi coginio.

PENDERFYNWYD:-

5.1 derbyn yr adroddiad;

5.2 bod y Pwyllgor yn ystyried derbyn adroddiad diweddaru maes o law ar ffrydiau cyllido Llywodraeth Cymru;

5.3 bod costau'r Awdurdod mewn perthynas â'r gost fesul pryd ysgol yn cael eu dosbarthu i'r Pwyllgor maes o law;

5.4 bod y data maeth mewn perthynas â phrydau ysgol yn cael ei ddosbarthu i'r Pwyllgor maes o law.

6. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiad craffu ynghylch cynnig Ysgol Gwenllian.

PENDERFYNWYD nodi'r eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiad.

7. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Adolygodd y Pwyllgor y rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn ei gyfarfod nesaf i'w gynnal ar 26 Mehefin 2024, a oedd wedi deillio o Flaengynllun Gwaith drafft y Pwyllgor am 2024/25.

PENDERFYNWYD nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 26 Mehefin 2024.

8. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 31 IONAWR 2024

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2024 yn gofnod cywir.

_____ _____

CHAIR **DATE**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf